# Canllawiau

Canllawiau i bleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr unigol ac asiantau etholiad ar y broses ar gyfer cyflwyno anerchiad etholiadol i Blatfform Gwybodaeth Etholiadau Cymru

bwrwpleidlais.cymru
vote.wales

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

# Canllawiau i bleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr unigol ac asiantau etholiad ar y broses ar gyfer cyflwyno anerchiad etholiadol i Blatfform Gwybodaeth Etholiadau Cymru

## 1. Pwrpas y canllawiau hyn

1.1 Mae'r canllawiau hyn wedi'u darparu gan Fwrdd Rheoli Etholiadol Cymru i gynorthwyo swyddogion enwebu pleidiau, ymgeiswyr ac asiantau etholiadol i gyflwyno eu hanerchiad etholiadol i Blatfform Gwybodaeth Etholiadau Cymru i'w gyhoeddi ar-lein.

1.2 Mae'r canllawiau'n cynnwys:

- Gwybodaeth am swyddogaethau Platfform Gwybodaeth Etholiadau Cymru
- Y prosesau ar gyfer cyflwyno anerchiad etholiadol i Blatfform Gwybodaeth Etholiadau Cymru i'w gyhoeddi ar-lein

1.3 Mae'r canllawiau hyn yn ymdrin â'r broses ar gyfer cyflwyno anerchiad etholiadol i Blatfform Gwybodaeth Etholiadau Cymru drwy wefan y platfform. Os na allwch gael mynediad i'r wefan neu ei defnyddio, cysylltwch â'r Bwrdd Rheoli Etholiadol i gael arweiniad ar gyflwyno anerchiad etholiadol â llaw.

### Cysylltu â Bwrdd Rheoli Etholiadol Cymru

1.4 Gallwch gysylltu â'r Bwrdd Rheoli Etholiadol drwy e-bostio - brhe@cdffc.llyw.cymru

## 2. Pwy sy'n gweithredu Platfform Gwybodaeth Etholiadau Cymru?

2.1 Roedd Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 yn darparu ar gyfer sefydlu Platfform Gwybodaeth Etholiadau Cymru.

2.2 Roedd Rheoliadau'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig 2025 yn nodi mai'r Bwrdd Rheoli Etholiadol a sefydlwyd gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yw gweithredwr y platfform. Mae'r rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol gyhoeddi gwybodaeth benodol ar y platfform, gan gynnwys yr anerchiad etholiadol ar gyfer pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr unigol.

## 3. Beth yw pwrpas Platfform Gwybodaeth Etholiadau Cymru?

3.1 Mae Platfform Gwybodaeth Etholiadau Cymru yn darparu gwybodaeth gyfredol ar-lein, i gyd mewn un lle, i gefnogi pleidleiswyr i gymryd rhan mewn etholiadau.

3.2 Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi'r canlynol ar-lein:

- Hysbysiadau swyddogol o etholiadau a gyhoeddir gan Swyddogion Canlyniadau
- Lleoliad gorsafoedd pleidleisio a phwy sydd â'r hawl i bleidleisio yno
- Trefniadau hygyrchedd mewn gorsafoedd pleidleisio
- Gwybodaeth am ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol cofrestredig sy'n sefyll yn etholiadau'r Senedd
- Anerchiadau etholiadol pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr unigol
- Canlyniadau'r etholiad

3.3 Gall Platfform Gwybodaeth Etholiadau Cymru gyhoeddi'r canlynol hefyd:

- Gwybodaeth am y system etholiadol a'r broses bleidleisio mewn perthynas ag etholiadau penodedig gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ddatganoli etholiadau penodedig
- Disgrifiad ac esboniad o'r gwahanol lefelau o lywodraeth sy'n bodoli yng Nghymru a'u cyfrifoldebau priodol
- Y gwahanol etholiadau sy'n digwydd yng Nghymru a'r systemau pleidleisio a ddefnyddir ym mhob etholiad
- Gwybodaeth am drefniadau etholiadol a phrosesau etholiadol ar gyfer etholiadau penodedig gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:
  - Cymhwystra i bleidleisio
  - Cofrestru i bleidleisio gan gynnwys cofrestru dienw a phleidleisio absennol
  - Y broses ymarferol o bleidleisio, gan gynnwys gwybodaeth am sut, pryd a ble i bleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio, drwy'r post neu drwy ddirprwy
  - Hawliau hygyrchedd i bleidleiswyr wrth bleidleisio
  - Manylion cyswllt ar gyfer timau etholiadol lleol sy'n cynorthwyo etholwyr ym mhob ardal yng Nghymru
  - Manylion cyswllt cynrychiolwyr etholedig ar gyfer pob un o etholaethau'r Senedd neu wardiau etholiadol llywodraeth leol yng Nghymru
  - Unrhyw wybodaeth arall am etholiadau penodedig y mae'r Bwrdd Rheoli Etholiadol yn ystyried ei bod yn briodol

# 4. Ar gyfer pwy mae'r canllawiau hyn?

4.1 Mae'r canllawiau hyn ar gyfer y rhai a fydd yn cyflwyno anerchiad etholiadol i Blatfform Gwybodaeth Etholiadau Cymru:

- ymgeiswyr ar restrau pleidiau
- ymgeiswyr unigol
- asiantau etholiadol
- swyddogion enwebu

4.2 Ystyr ymgeiswyr unigol yw ymgeiswyr nad ydynt wedi'u cynnwys ar restr plaid.

# 5. Beth yw Anerchiad etholiadol?

5.1 Mae anerchiad etholiad (a elwir hefyd yn ddeunydd postio etholiadol neu'n ohebiaeth etholiadol) yn ddatganiad ymgyrchu y mae plaid wleidyddol gofrestredig neu ymgeisydd unigol sy'n sefyll mewn etholiad Senedd yn ei wneud i'r etholwyr i'w perswadio i bleidleisio drosto. Mae'n fersiwn ar-lein o'r daflen etholiadol a anfonir yn rhad ac am ddim trwy'r Post Brenhinol.

5.2 Nid oes rhaid i chi gyflwyno anerchiad etholiadol i'w gyhoeddi, ond mae'n ffordd dda o rannu eich neges â phleidleiswyr etholaeth. Os byddwch yn dewis cael un, yna rhaid i chi fod yn ymwybodol o'r rheolau a nodir mewn deddfwriaeth:

- dim ond materion yn ymwneud â'r etholiad y dylai eu cynnwys
- Ni ddylai gynnwys unrhyw ddeunydd sydd:
- yn anweddus neu'n sarhaus
- y byddai ei gyhoeddi yn debygol o fod yn gyfystyr â chyflawni trosedd

5.3 Mae Rheoliadau'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig 2025 yn nodi mai'r ymgeisydd/ymgeiswyr a'r asiant etholiadol sy'n atebol am yr anerchiad etholiadol. Mae pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr unigol yn gyfrifol am sicrhau bod yr hyn sy'n cael ei bostio ganddynt yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Mae canllawiau'r Post Brenhinol ar ohebiaeth etholiadol yn nodi'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer anerchiad etholiadol.

5.4 Mae gan bob plaid wleidyddol gofrestredig ac ymgeisydd unigol yr hawl i wneud y canlynol:

- anfon uchafswm o 2 anerchiad etholiadol yn rhad ac am ddim i'w postio drwy'r Post Brenhinol

- cyflwyno 1 o’r taflenni etholiadol cymeradwy i Blatfform Gwybodaeth Etholiadau Cymru i’w chyhoeddi ar-lein.

## 6. Beth sydd angen i chi ei wneud cyn cyflwyno anerchiad etholiadol i Blatfform Gwybodaeth Etholiadau Cymru?

6.1 Ni ellir cyflwyno anerchiad etholiadol i Blatfform Gwybodaeth Etholiadau Cymru i’w gyhoeddi ar-lein nes bod y canlynol wedi digwydd:

- Mae’r papur enwebu ar gyfer plaid wleidyddol (ac ymgeiswyr ar restr plaid) wedi’i dderbyn gan y Swyddog Canlyniadau Etholaethol **neu**
- Mae’r papur enwebu ar gyfer ymgeisydd unigol wedi’i dderbyn gan y Swyddog Canlyniadau Etholaethol
  **ac**
- Mae’r gwaith celf ar gyfer deunydd postio etholiadol/gohebiaeth etholiadol wedi’i gymeradwyo gan y Post Brenhinol ac mae’r cod cymeradwyo cyfeirio unigryw wedi’i dderbyn

6.2 Y dyddiad cynharaf y gellir cyflwyno anerchiad etholiadol i’r platfform ar ôl i’r ddwy dasg hyn gael eu cwblhau yw dau ddiwrnod gwaith ar ôl i’r Swyddog Canlyniadau Etholaethol gyhoeddi’r hysbysiad o etholiad.

## 7. Pwy all gyflwyno anerchiad etholiadol i Blatfform Gwybodaeth Etholiadau Cymru?

| Pwy sydd wedi paratoi’r anerchiad etholiadol neu ar ran pwy y mae wedi’i baratoi? | Pwy all gyflwyno anerchiad etholiadol i’r platfform? |
|---|---|
| Plaid wleidyddol gofrestredig sydd wedi cyflwyno rhestr plaid ar gyfer etholaeth | Y swyddog enwebu cofrestredig |
| | Ymgeisydd sydd wedi’i gynnwys ar restr y blaid |
| | Asiant etholiadol sydd wedi’i benodi gan y blaid wleidyddol gofrestredig |
| Ymgeisydd unigol | Yr ymgeisydd unigol ei hun |
| | Asiant etholiadol sydd wedi’i benodi gan yr ymgeisydd unigol |

## Newid asiant etholiadol a benodwyd

7.1 Os caiff penodiad asiant etholiadol ei ddirymu ar ôl y dyddiad cau cychwynnol ar gyfer penodi asiant etholiadol ac mae'r asiant etholiadol newydd yn bwriadu cyflwyno'r anerchiad etholiadol, dylech hysbysu'r Bwrdd Rheoli Etholiadol am enw a chyfeiriad yr asiant etholiadol newydd.

7.2 Mae hyn yn caniatáu i'r gwiriadau diogelwch priodol gael eu cynnal os caiff anerchiad etholiadol ei gyflwyno ganddo.

# 8. Proses ar gyfer cyflwyno anerchiad etholiadol

Gallwch gael mynediad i'r ardal gyflwyno ar-lein yn bwrwpleidlais.cymru

## Cam 1 - Gwiriad diogelwch i gyflwyno anerchiad etholiadol

8.1 Cam cyntaf y broses yw gwiriad diogelwch. Mae angen y gwiriad diogelwch er mwyn:

- sicrhau mai dim ond y rhai y caniateir iddynt gyflwyno anerchiad etholiadol all wneud hynny
- sicrhau diogelwch technegol Platfform Gwybodaeth Etholiadau Cymru

8.2 Gofynnir i chi am y canlynol:

- enw llawn neu enw a ddefnyddir yn gyffredin y person sy'n cyflwyno'r anerchiad etholiadol (yn unol â'r papur enwebu neu benodiad yr asiant etholiadol)
- cyfeiriad e-bost y person sy'n cyflwyno'r anerchiad etholiadol

8.3 Mae'n bwysig bod yr wybodaeth a ddarperir yn gyflawn a bod y sillafu'n gywir gan y bydd yn cael ei defnyddio i wirio bod gennych ganiatâd i gyflwyno anerchiad etholiadol.

8.4 Bydd cod dilysu yn cael ei anfon i'r cyfeiriad e-bost rydych wedi'i ddarparu. Bydd angen i chi nodi'r cod hwn er mwyn mynd ati i gyflwyno eich anerchiad etholiadol.

8.5 Os na fyddwch yn derbyn e-bost sy'n cynnwys y cod dilysu, dylech gysylltu â'r Bwrdd Rheoli Etholiadol - brhe@cdffc.llyw.cymru

### Cyfeiriad e-bost pwy y dylid ei ddarparu?

Dylai'r person sy'n cyflwyno'r anerchiad etholiadol i'r platfform ddarparu ei gyfeiriad e-bost. Rhaid i'r cyfeiriad e-bost a ddefnyddir fod yr un cyfeiriad e-bost â'r un a ddelir gan y Swyddog Canlyniadau Etholaethol.

Yn ystod y cyfnod enwebu, bydd Swyddogion Canlyniadau Etholaethol yn casglu cyfeiriadau e-bost gan:

- ymgeiswyr ar restr plaid ac ymgeiswyr unigol a enwebwyd
- asiantau etholiadol a benodwyd

Bydd y Swyddogion Canlyniadau Etholaethol yn rhannu'r data hwn gyda'r Bwrdd Rheoli Etholiadol i'w ddefnyddio wrth redeg y platfform. Bydd yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r gwiriad diogelwch sy'n ofynnol i lanlwytho anerchiad etholiadol i'r platfform. Rydym yn annog pob ymgeisydd ac asiant etholiad i roi ei gyfeiriad e-bost i'r Swyddog Canlyniadau. **Ni fydd y cyfeiriadau e-bost yn cael eu cyhoeddi ar y platfform.**

Ni fydd yn bosibl cwblhau'r gwiriad diogelwch gofynnol:

- os nad oes cyfeiriad e-bost wedi'i ddarparu i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol
- os defnyddir cyfeiriad e-bost gwahanol ar y platfform i'r un a ddarperir i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol

**Swyddogion Enwebu**

Os ydych chi'n Swyddog Enwebu plaid ac eisiau cyflwyno anerchiad etholiadol eich plaid, cysylltwch â'r Bwrdd Rheoli Etholiadol - brhe@cdffc.llyw.cymru. Gofynnir i chi ddarparu cyfeiriad e-bost fel y gallwn ei ychwanegu at system y platfform.

Os ydych yn cyflwyno anerchiad etholiadol ar gyfer mwy nag un etholaeth, bydd angen i chi eu llwytho i fyny un ar y tro. Mae hyn yn wir hyd yn oed os yw cynnwys yr anerchiad etholiadol yr un fath ar gyfer pob etholaeth.

## Cam 2 - Cadarnhau manylion y blaid wleidyddol neu'r ymgeisydd unigol y mae'r anerchiad etholiadol ar ei gyfer

8.6 Ar ôl i'r cod dilysu gael ei nodi a'i dderbyn, bydd y platfform yn dangos manylion y blaid wleidyddol neu'r ymgeisydd unigol rydych chi'n cyflwyno'r anerchiad etholiadol ar ei gyfer.

8.7 Dylech fwrw golwg arall dros yr wybodaeth yn ofalus a chadarnhau ei bod yn gywir. Byddwch yn ymwybodol mai gwybodaeth drafft a ddangosir yn ystod y cyfnod enwebu. Efallai na fydd yn gyflawn os yw Swyddogion Canlyniadau Etholaethol yn dal i fod

wrthi'n penderfynu ar bapurau enwebu. Rydym yn argymell y dylid aros o leiaf 24 awr ac edrych drosti eto cyn cysylltu â'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol mewn perthynas ag unrhyw wallau neu hepgoriadau posibl.

## Cam 3 - Lanlwytho anerchiad etholiadol

8.8 Cam nesaf y broses yw:

- darparu cod cymeradwyo'r Post Brenhinol
- dewis yr iaith/ieithoedd y mae'r anerchiad etholiadol wedi'i ysgrifennu ynddynt – Cymraeg, Saesneg neu Gymraeg a Saesneg.
- lanlwytho fersiwn PDF o'r anerchiad etholiadol i'w ddanfon am ddim

8.9 Bydd cod cymeradwyo'r Post Brenhinol yn cael ei ddefnyddio i wirio bod anerchiad etholiadol yn un sydd wedi'i gymeradwyo i'w ddanfon am ddim gan y Post Brenhinol. Rhaid i chi lanlwytho'r un ffeil PDF â'r un sydd wedi'i chymeradwyo gan y Post Brenhinol.

8.10 Gofynnir i chi ddewis ffeil i'w lanlwytho i'r platfform. Dim ond un ffeil y gallwch ei lanlwytho. Rhaid i'r ffeil fod ar ffurf PDF a dylai fod yn llai na 15MB.

## Ystyriaethau dylunio ar gyfer anerchiadau etholiadol a fydd yn cael eu cyhoeddi ar bapur ac ar-lein

Rhaid i anerchiad etholiadol a gyflwynir i Blatfform Gwybodaeth Etholiadau Cymru i'w gyhoeddi ar-lein fod yn union yr un fath â'r un sydd wedi'i gymeradwyo i'w ddanfon am ddim gan y Post Brenhinol.

Wrth ddylunio'r anerchiad etholiadol i'w bostio am ddim, dylech feddwl am y ffordd y bydd yn edrych ar bapur a phan gaiff ei gyhoeddi ar-lein.

Dylech wneud y canlynol:

- sicrhau y bydd y ffont, maint y testun a chyfeiriad y testun yn addas i'w cyhoeddi ar bapur ac ar-lein
- sicrhau bod modd cyhoeddi testun yr anerchiad etholiadol fel tudalen we ac nid dim ond mewn fformat PDF

Os yw'r fersiwn PDF o'r anerchiad etholiadol yn cynnwys cyfeiriadau URL neu ddolenni gwe, ni fydd y rhain yn gweithio o'r wefan. Os byddwch yn copïo ac yn gludo testun i'r blwch testun i'w gyhoeddi mewn HTML, ni fydd cyfeiriadau URL na dolenni gwe yn gweithio o'r dudalen we.

**Sicrhau bod y cynnwys mewn anerchiad etholiadol yn hygyrch**

Rydym yn argymell eich bod yn cymryd camau i sicrhau bod cynifer o ddefnyddwyr y platfform â phosibl yn gallu cyrchu'r wybodaeth yn eich anerchiad etholiadol.

Gallwch wneud hyn drwy **Sicrhau bod eich dogfennau PDF yn fwy hygyrch** - nid yw ffeiliau PDF yn hygyrch i bawb. Er enghraifft, nid ydynt yn gweithio'n dda gyda thechnolegau cynorthwyol fel darllenwyr sgrin. Gellir dod o hyd i ganllawiau ar sut i wneud dogfennau PDF yn fwy hygyrch yma. Mae'r canllawiau yn cynghori eich bod yn gwneud y canlynol:

- **Gwneud yn siŵr eich bod:**
  - yn defnyddio penawdau yn lle testun trwm, gan ddechrau gyda phennawd 1 ar gyfer y teitl
  - yn defnyddio lefelau penawdau bob tro
  - yn gwirio cyferbyniadau lliw
  - yn gwirio hygyrchedd y ddogfen
- **Osgoi defnyddio:**
  - testun dolenni byr
  - delweddau addurniadol, gan gynnwys y rhai a ddefnyddir at ddibenion cynllun fel gwahanwyr llinellau llorweddol

Gwnewch yn siŵr nad yw eich PDF yn cynnwys cyfarwyddiadau fel 'defnyddiwch y canllawiau ar y dde'. Ni fydd pobl â nam ar eu golwg yn gallu gweld hyn.

## Cam 4 – Mewnbynnu'r testun yn eich anerchiad etholiadol ar dudalen we

8.11 Yna byddwch yn gallu mewnbynnu'r testun a argraffwyd ar eich anerchiad etholiadol i'w ddanfon am ddim drwy'r post ar y platfform mewn blwch testun.

8.12 **Mae'r cam hwn yn ddewisol**. Mae'r Bwrdd Rheoli Etholiadol yn argymell y dylid cwblhau'r cam hwn gan y bydd hyn yn sicrhau bod modd i'r cynnwys gael ei gyhoeddi mewn fformat HTML ar dudalennau gwe a fydd yn hygyrch i fwy o bleidleiswyr na ffeiliau PDF. Bydd y ffeil PDF yn dal i gael ei chyhoeddi ochr yn ochr ag ef.

8.13 Dylech gopïo a gludo'r holl destun – gan gynnwys yr argraffnod – o'r fersiwn PDF o'r anerchiad etholiadol i'r blwch testun a ddarperir ar dudalen cyflwyno'r platfform. Ni fydd yn bosibl ail-greu unrhyw graffeg na ffotograffau ar y dudalen we. Tynnwch unrhyw anodiadau testun sy'n gysylltiedig â ffotograffau neu graffeg – dyma'r unig wahaniaeth mewn testun a ganiateir rhwng y blwch testun a'r testun PDF.

8.14 **PWYSIG** – Os byddwch yn dewis lanlwytho'r testun o'ch anerchiad etholiadol i'w gyhoeddi ar y platfform, rhaid iddo:

- fod yn union yr un testun â'r hyn sydd wedi'i argraffu ar y fersiwn PDF – ni allwch ysgrifennu unrhyw beth gwahanol
- bod yn yr un iaith â'r fersiwn PDF – e.e. os yw eich PDF wedi'i ysgrifennu yn Gymraeg, dim ond yr un testun Cymraeg y gallwch ei lanlwytho

8.15 **Sylwch**: Os yw'r testun a roddir yn y blwch testun yn wahanol i'r testun a argraffwyd ar y fersiwn PDF a gymeradwywyd gan y Post Brenhinol, yna efallai y bydd yr holl destun yn y blwch testun yn cael ei wrthod.

8.16 Ar ôl i'r testun gael ei fewnbynnu ar y platfform, edrychwch drosto i wneud yn siŵr ei fod yr un fath â'r testun PDF. Byddwch yn gallu cywiro unrhyw wallau neu wneud newidiadau ar y pwynt hwn yn y broses.

## Cam 5 - Cadarnhau a Datgan

8.17 I gwblhau eich cyflwyniad, gofynnir i chi gwblhau datganiad. Bydd y datganiad yn gofyn i chi gadarnhau'r canlynol:

- bod y wybodaeth a ddarparwyd yn wir ac yn gywir hyd eithaf eich gwybodaeth;
- eich bod yn ymgeisydd, yn asiant etholiad, neu'n swyddog enwebu plaid sydd wedi'i enwebu'n ddilys;

- bod yr anerchiad etholiadol ond yn cynnwys materion sy'n ymwneud â'r etholiad, ac nad yw'n cynnwys unrhyw deunydd sy'n anweddus neu'n sarhaus neu y gallai ei gyhoeddi fod yn gyfystyr â chyflawni trosedd;
- bod yr ymgeisydd/ymgeiswyr a'u hasiant etholiad yn derbyn cyfrifoldeb llawn am gynnwys yr anerchiad etholiadol, gan gynnwys unrhyw atebolrwydd sifil neu droseddol posibl;
- eich bod yn awdurdodi'r Bwrdd Rheoli Etholiadol i gyhoeddi'r anerchiad etholiadol ar Blatfform Gwybodaeth Etholiadau Cymru.

## 9 Beth fydd yn digwydd ar ôl i'r anerchiad etholiadol gael ei gyflwyno?

9.1 Ar ôl i chi gyflwyno'r anerchiad etholiadol:

- bydd yr anerchiad etholiadol yn cael ei anfon at y Bwrdd Rheoli Etholiadol er mwyn iddo fwrw golwg drosto
- bydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol yn gwirio bod y fersiwn PDF o'r anerchiad etholiadol yn cyd-fynd â'r fersiwn a gymeradwywyd gan y Post Brenhinol ac, os ydych wedi darparu'r fersiwn testun, bod y fersiwn hon yn cyd-fynd â'r ddwy arall hefyd
- bydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol yn cyhoeddi anerchiadau etholiadol dilys ar y dyddiadau cyhoeddi a drefnwyd

9.2 Os byddwch yn dod o hyd i gamgymeriad ar ôl i chi gyflwyno eich anerchiad etholiadol, bydd angen i chi gysylltu â'r Bwrdd Rheoli Etholiadol.

## 10 Dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno anerchiad etholiadol a'i gyhoeddi

| **Dyddiad cau - i'w dderbyn gan y Bwrdd Rheoli Etholiadol** | **Cyhoeddi** |
|---|---|
| Dydd Mawrth 14 Ebrill 2026 | Dydd Iau 16 Ebrill 2026 |

10.3 Bydd cyhoeddiadau atodol ar gyfer pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr sy'n colli'r dyddiad cau ar gyfer y prif gyhoeddiad. Bydd anerchiadau etholiadol hefyd yn cael eu

cyhoeddi ddydd Iau 23 Ebrill 2026 a dydd Iau 30 Ebrill 2026 a rhaid iddynt gael eu derbyn gan y Bwrdd Rheoli Etholiadol ddau ddiwrnod gwaith ymlaen llaw.

| **Dyddiad cau - i'w dderbyn gan y Bwrdd Rheoli Etholiadol** | **Cyhoeddi** |
|---|---|
| Dydd Mawrth 21 Ebrill 2026 | Dydd Iau 23 Ebrill 2026 |
| Dydd Mawrth 28 Ebrill 2026 | Dydd Iau 30 Ebrill 2026 |

10.4 Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi mai'r dyddiad olaf y gall y Bwrdd Rheoli Etholiadol gyhoeddi unrhyw anerchiad etholiadol yw dydd Iau 30 Ebrill 2026. Felly, ni fydd unrhyw anerchiad etholiadol a gyflwynir i'r platfform ar ôl hanner nos ddydd Mawrth 28 Ebrill 2026 yn cael ei gyhoeddi gan y Bwrdd Rheoli Etholiadol.

**bwrwpleidlais.cymru**
**vote.wales**